

Cwrs Uwch – Uned Gyfoes (Mis Rhagfyr 2020):

Hoff Gân Gymraeg Dysgwyr

Nod y wers:

- Cyflwyno'r tair cân ddaeth i'r brig ym mhleidlais Hoff Gân Gymraeg y Dysgwyr Radio Cymru yn yr hydref;
- Trafod yr artistiaid a themâu'r caneuon;
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd.
- Hyrwyddo cyngerdd Dafydd Iwan ar 17 Rhagfyr

Ym mis Medi a mis Hydref, cynhaliodd BBC Radio Cymru bleidlais i ddewis hoff gân Gymraeg dysgwyr o blith deg cân a roddwyd ar restr fer ar sail cynigion gan diwtoriaid. Ar 12fed Hydref, cafodd canlyniad y bleidlais ei gyhoeddi ar raglen Ifan Jones Evans ar Radio Cymru. Mae'r uned hon yn rhoi sylw i'r tair cân uchaf ar y rhestr. Mae'n bosib cyflwyno'r elfennau yn y wers hon dros fwy nag un sesiwn. Bydd yr artist ddaeth i'r brig yn cynnal cyngerdd Nadolig arbennig i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg nos Iau, 17 Rhagfyr am 8pm ar Facebook/learn Cymraeg a sianel AMAM. Mae sylw i'r cyngerdd hwn ar ddiwedd yr uned – cofiwch annog y dysgwyr i ymuno.

Sicrhewch bod modd i chi chwarae'r tair cân a ddaeth i'r brig i'ch dosbarth – o CD, ffeiliau sain neu lwyfannau digidol.

1. Cyflwyniad a'r Rhestr Fer

Wedi cyflwyno'r uned, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bychain (3-4) i drafod beth maen nhw'n ei wybod am y caneuon a'r artistiaid sydd ar y rhestr fer ac i ddyfalu pa gân ddaeth i'r brig yn y bleidlais. Wrth adrodd yn ôl, mae cyfle i ymarfer gyda cymalau mai/taw – “Dyn ni'n meddwl mai _____ oedd rhif un”.

2. Rhif 3 – Adra gan Gwyneth Glyn

Chwaraewch y clip sain o Ifan Evans yn cyhoeddi pa gân oedd yn rhif 3 yn y siart - 07:08 i mewn i'r darn yma: <https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p08v36zx>. Gallech chi roi cyfle iddynt glywed y gân nawr hefyd.

Mae ymarferion iaith i'w gwneud cyn gwranddo ar y clip o Gwyneth Glyn yn siarad gyda beti George.

Ceir trawsgrifiad o'r sgwrs yn Atodiad 1 er gwybodaeth a hwylustod i chi.

1. Cyflwynwch yr ymadrodd **..digwydd bod yn...** a rhowch y dysgwyr ar waith mewn parau i wneud yr ymarfer i uno'r haneri brawddegau. Ewch dros yr atebion – mae sleidiau Powerpoint ar gael i chi gyflwyno'r ymarfer a'r atebion. Neu, mae modd i chi osod yr ymarfer trwy erfyn *Polls* os ydych yn dysgu trwy *Zoom* – ym mhob cwestiwn, gosodwch hanner cyntaf un o'r brawddegau a gallwch osod y chwech ail hanner fel opsiynau ar gyfer ateb pob cwestiwn.

Dyma'r atebion disgwylidig:

Ro'n i'n digwydd bod yn yr archfarchnad...	..pan ffoniodd fy ngŵr i ofyn i fi ddod â blawd a menyn gartref.
Ro'n i'n digwydd bod yn gwranddo ar y radio yn y car...	.. pan glywais i fy chwaer yn siarad ar y newyddion.
Ro'n i'n digwydd bod yn aros am drên...	..pan ddaeth hen ffrind i sefyll ar y platfform wrth fy ochr i.
Roedd y tywydd yn digwydd bod yn braf...	..ar ddiwrnod cynta'r gwyliau.
Roedd o'n digwydd bod adra'n sâl...	..ar y diwrnod roedd o i fod i gael cyfarfod pwysig efo'r bos.
Roedd hi'n digwydd bod yn aelod o'r un côr...	.. â chwaer-yng-nghyfraith cefnder mam Elin Fflur.

2. Trafodwch yr ymadrodd "**ddaru'n annog i**". Enghraifft sydd yma o'r defnydd o 'ddaru' i ffurfio amser y gorffennol ac "yn" yn cynrychioli "fy". Ymhlith ffurfiau eraill posib, mae:

wnaeth fy annog i anogodd fi
'nath yn annog i a'm hanogodd

Gofynnwch i'r dysgwyr gyfeirio at bobl wnaeth ddylanwadu ar eu bywyd nhw trwy eu hannog i wneud rhywbeth. Gellir gwneud hyn mewn grwpiau llai os oes llawer yn y dosbarth.

3. Rhannwch y dysgwyr yn barau i wneud yr ymarfer ar wahanol ffurfiau 'yn ei ddagrau' ac 'wedi'i gyffwrdd'. Dyma'r atebion:

Roedd hi yn ei dagrau.	Roedd hi wedi'i chyffwrdd.
Ro'n i yn fy nagrau.	Ro'n i wedi (fy) nghyffwrdd.
Ro't ti yn dy ddagrau.	Ro't ti wedi dy gyffwrdd.
Ro'n ni yn ein dagrau.	Ro'n ni wedi'n cyffwrdd.
Ro'ch chi yn eich dagrau.	Ro'ch chi wedi'ch cyffwrdd.
Ro'n nhw yn eu dagrau.	Ro'n nhw wedi'u cyffwrdd.

4. Gofynnwch i'r dysgwyr wrando am yr enwau canlynol wrth i chi chwarae'r clip am y tro cyntaf (gellir gofyn iddynt godi llaw):

Luned Emyr Dyl Mei Ray Gravell (Grav)

Chwaraewch y clip: <https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p054h865> ac ewch dros gwestiynau 4-7 cyn ailchwarae'r darn o gosod y dysgwyr mewn parau/grwpiau o dri i drafod yr atebion i gwestiynau 4-7.

Dyma'r atebion disgwylidig:

Cynhyrchydd cerddoriaeth wnaeth wahodd Gwyneth i'r stiwdio i recordio'r gân.	Dyl Mei
Cyn-chwaraewr rygbi a chyflwynydd radio oedd yn hoff iawn o'r gân.	Ray Gravell / Grav
Ffrind agos oedd yn byw gyda Gwyneth Glyn pan ysgrifennodd hi'r gân:	Luned Emyr

5. Pam aeth Gwyneth i siop elusen *Pet Rescue*?
I brynu peiriant (hen beiriant/peiriant cyntefig) i recordio caneuon i'w rhoi trwy ddrws Dyl Mei.
6. Pam doedd Grav ddim yn hapus i chwarae'r gân ar ei raglen radio pan glywodd e hi'r tro cynta?
Am mai geiriau Saesneg sydd ar ddechrau'r gân – roedd yn meddwl mai cân Saesneg oedd hi.
7. Wrth iddi adrodd y stori, sut mae Gwyneth yn dweud y pethau isod?

Mae'r ddau ymadrodd cyntaf yn enghreifftiau o'r defnydd o "dyma" i adrodd stori am rywbeth ddigwyddodd yn y gorffennol, ac mae'r ddau olaf yn enghreifftiau o'r defnydd o "rhywun" i gyfeirio at eich hunan mewn modd amheronol (tebyg i "one..." yn Saesneg).

Es i i un o siopau elusen Caernarfon A dyma fynd i un o siopau elusen (– Pet Rescue, dw i'n meddwl) Caernarfon

Daeth Dyl Mei o hyd i mi A dyma Dyl Mei yn dod o hyd i mi

Fy helpu i ar ddechrau fy ngyrfa yn rhoi fi ar ben ffordd

Do'n i ddim yn caniatáu i fi fy hun sylweddoli... oedd rhywun ddim yn caniatáu i'w hun sylweddoli

Basai hynny wedi bod yn drech na fi 'sai hynny 'di bod yn drech na rhywun

Chwaraewch y gân eto cyn rhannu'r dysgwyr yn grwpiau bach eto i drafod cwestiynau 1-4 am eiriau'r gân. Dyma'r atebion:

1. "*There is a town in North Ontario*" - o'r gân *Helpless* gan Neil Young.
"*Sweet home Alabama*" – o gân o'r un enw gan Lynyrd Skynyrd.
"Rwy'n mynd yn ôl i Flaenau Ffestiniog" – o'r gân *Blaenau Ffestiniog* gan Y Tebot Piws
"*Take me home, country roads*" – o gân o'r un enw gan John Denver.
2. Dwn i ddim lle dw i'n mynd,
Dwn i ddim lle dw i 'di bod.
Sgin i'm syniad lle dw i rŵan hyn
A Duw a wŷr lle dw i i fod.

3. Dw i 'di cysgu dan sêr yn y Sahara,
Ac aros ar fy nhraed drwy'r nos ym Mhrâg.
Dw i 'di dawnsio ar fynydd hefo ffrindiau newydd,
A deffro ar awyren wag.

4. Sgin i'm map, a sgin i'm arwydd.
A sgin i'm "rough guide" ar y daith.

Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau sy'n trafod cartref. Wedi cyflwyno'r cwestiynau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau'r grwpiau.

3. *Sebona Fi* – Yws Gwynedd

Chwaraewch y clip sain o Ifan Evans yn cyhoeddi pa gân oedd yn rhif 2 - 12:21 i mewn i'r darn yma: <https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p08v36zx> a chwaraewch y gân.

Cân ysgafn i godi'r hwyl yw hon. Ewch dros y darn darllen (gellir gofyn i'r dysgwyr ei ddarllen yn uchel fesul brawddeg). Os ydych chi'n meddwl y byddai'ch dosbarth yn ei werthfawrogi, gellir dangos y clip fideo hwn, sy'n dangos nifer o bobl ifanc yn mwynhau yn Maes B ar noson perfformiad Yws Gwynedd yno yn 2017:

<https://www.youtube.com/watch?v=FtpBcfWGF1o>.

Mae fideo ar gael hefyd o Yws Gwynedd yn perfformio *Sebona Fi* ar y noson honno: <https://www.youtube.com/watch?v=lytA0Oo2Tco>. Mae'r fideo hon yn rhoi blas o'r awyrgylch yn y gig ac o boblogrwydd Yws Gwynedd.

Cyflwynwch y cwestiynau sgwrsio cyn rhannu'r dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw bethau diddorol a gododd yn y grwpiau.

4. *Yma o Hyd* – Dafydd Iwan ac Ar Log

Chwaraewch y clip sain o Ifan Evans yn cyhoeddi pa gân gyrhaeddodd y brig - 16:27 i mewn i'r darn yma: <https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p08v36zx> a chwaraewch y gân.

Cyflwynwch y darn darllen am Macsen Wledig. Mae modd i chi dorri'r darn yn baragraffau – ar sribedi papur mewn dosbarth traddodiadol, neu mewn ffeiliau ar wahân mewn dosbarth o bell. Anfonwch baragraffau gwahanol i wahanol ddysgwyr (mae'n well gwneud hyn ymlaen llaw os oes modd i roi cyfle iddynt argraffu os ydynt yn dymuno gwneud). Gosodwch nhw mewn grwpiau, gan sicrhau bod y darn cyfan gan bob grŵp rhwng y gwahanol aelodau., a gofynnwch i bawb ddarllen eu paragraffau hwy a thrafod rhyngddynt wedyn er mwyn rhoi'r cyfan at ei gilydd yn un stori. Mae ffeiliau y gallwch eu defnyddio gyda grwpiau o 3 ar gael gyda'r cyfarwyddiadau hyn, ond bydd angen addasu os ydych am gael nifer gwahanol mewn grŵp.

Wedi i bawb ddod ynghyd eto, cyflwynwch y darn yn y drefn iawn ar y sgrin ac yna ewch dros y cwestiynau geirfa.

Dyma'r atebion:

1. chwilio **am** dod o hyd i cysylltu â
2. pob rhan o'r byd.
3. **dros** yr Alpau, **trwy** Ffrainc, a **dros y môr** i Ynys Prydain.

Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau sy'n trafod breuddwydio. Wedi cyflwyno'r cwestiynau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau'r grwpiau.

Yma o Hyd

Cyn chwarae'r gân eto, ewch dros y rhestr o eiriau sydd wedi'u nodi yn yr uned a gofyn i bawb roi cylch o'u cwmpas pan fyddant yn eu clywed. Holwch wedyn pwy sydd wedi cael tŷ llawn!

1. Ewch dros y pennill sydd â bylchau ynddi cyn gofyn i bawb geisio llenwi'r bylchau wrth wrando eto ar y gân. Ewch dros yr atebion (mae'r geiriau'n llawn yn nes ymlaen yn yr uned) cyn mynd dros cwestiynau 2-5 a rhannu'r dysgwyr yn barau i weithio trwyddynt.
2. Mil a chwe chant.
Tri-chant-wyth-tri (neu tri chant wyth deg tri)
3. hyd a lled – maint neu ddimensiynau (rhywbeth diriaethol neu haniaethol)
dod o hyd i – darganfod
o hyd ac o hyd – dro ar ôl tro
hyd yn oed – *even*
hyd y gwn i – *am wn i/as far as I know*
hyd heddiw – yn dal i fod – *to the present day*
ar hyd y nos – trwy'r nos

4.

cysefin	cymharol	eithaf
gwael/drwg	gwaeth	gwaetha
da	gwell	gorau
bach	llai	lleiaf
mawr	mwy	mwya

Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau sy'n trafod cyd-ganu, caneuon a thorffeydd mewn gemau a'r caneuon a ddaeth i'r brig yn y siart. Wedi cyflwyno'r cwestiynau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau'r grwpiau.

Cofiwch gyfeirio hefyd at y Gig Nadolig gyda Dafydd Iwan a gynhelir nos Iau, 17 Rhagfyr am 8pm ar Facebook/learn Cymraeg a sianel AMAM ac annog y dysgwyr i ymuno ar y noson.

Atodiad 1 – Trawsgrifiad o sgwrs Gwyneth Glyn a Beti George

O’n i’n digwydd bod yn byw ar yr un stryd â Dyl Mei yng Nghaernarfon, o’n i’n rhannu tŷ hefo Luned Emyr ar y pryd – ffrind arall agos iawn a hynod ddawnus a hyfryd i mi. A dw i’n meddwl mai **hi ddaru’n annog i**, “duwcs, recordia rwbath a rho fo drwy dwll post Dyl Mei”. **A dyma fynd** i un o siopau elusen – Pet Rescue, dw i’n meddwl – yng Nghaernarfon a prynu un o’r peiriannau bach **cyntefig** ’ma i recordio, a recordio cân neu ddwy. **A dyma Dyl Mei yn dod o hyd i mi** wedyn a deud “wyt ti’n dod i’r stiwdio”, a **doedd ’na ddim troi’n ôl wedyn a dw i’n ddiolchgar iawn iddo fo hyd y dydd heddiw** am **yn rhoi fi ar ben ffordd**.

Ac mae hi wedi dod yn un o’r caneuon hynny – eiconig mewn gwirionedd, a Ray Gravell wrth gwrs, wrth ei fodd on’ d oedd, yn gwrando ar hon?

Wel mae’n debyg, y tro cynta i rywun ei chwarae hi iddo fo, dyma fo’n rhegi ar ôl rhyw ddeg eiliad a deud “fi’n pallu chwarae hon, mae’n Saesneg”. Ond mae’n debyg, erbyn diwedd y gân, bod Grav druan **yn ei ddagrau a wedi’i gyffwrdd**.

Ac fe gawsoch chi ei chanu ddi yn ei angladd e on’ d do?

Wel do, ar gais ei deulu o. Ac ia, oedd hwnnw’n ddigwyddiad **dirdynnol**, ac ar y pryd mewn gwirionedd, **oedd rhywun ddim yn caniatáu i’w hun** sylweddoli digwyddiad mor ddirdynnol oedd o, neu ella **’sai hynny ’di bod yn drech na rhywun**. Ond ia, oedd ei bresenoldeb o i’w deimlo ar Barc y Scarlets y diwrnod hwnnw.